



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Gylch Meithrin Y Drenewydd  
d/o Ysgol Dafydd Llwyd  
Lon Y Blanhigfa  
Y Drenewydd  
Powys  
SY16 1JE**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/12/2017

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Y Drenewydd, sydd yn cwrdd mewn uned yn Ysgol Dafydd Llwyd, Y Drenewydd, yn awdurdod lleol Powys. Mae'r lleoliad ar agor am bum niwrnod yr wythnos ac yn cydweithio gyda Dechrau'n Deg, sy'n darparu ar gyfer y plant dwy oed.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 40 plentyn ar unrhyw adeg benodol. Mae'r ymarferwyr yn darparu addysg ar gyfer plant sydd yn dair a phedair oed. Mae bron pob un plentyn yn y lleoliad wedi eu hariannu i dderbyn addysg y blynyddoedd cynnar.

Mae bron pob un o'r plant o gefndir gwyn Prydeinig ac nid oes un plentyn yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tri aelod o staff. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Medi 2017.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Rhagfyr 2016 a gan Estyn ym mis Mawrth 2012.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol y lleoliad</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r lleoliad</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- bron pob un o'r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn gyfrifol
- ymarferwyr yn gweithio'n gydwobodol â'i gilydd i ddarparu gweithgareddau diddorol a difyr sy'n cymell y plant i ddysgu'n ymarferol
- yr addysgu a holi medrus yn effeithio'n gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant
- ymarferwyr yn cwblhau asesiadau cyson yn bwrpasol
- trefniadau effeithlon gan y lleoliad i gefnogi iechyd a lles disgyblion
- ymarferwyr yn defnyddio adnoddau'n bwrpasol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion y plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd a'r ymarferwyr profiadol yn defnyddio gweithdrefnau sefydlog i sicrhau cyfeiriad clir i waith y lleoliad, er mwyn gwella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- adnabyddiaeth addas gan yr arweinydd o gryfderau'r lleoliad a'r ardaloedd sydd angen eu gwella
- trylwyredd a manylder y pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn i arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad
- systemau sefydlog yn bodoli i fonitro'r defnydd ac effaith y cyllid
- defnydd pwrpasol o wasanaethau cymorth yn effeithio'r ddarpariaeth yn gadarnhaol
- partneriaethau pwrpasol gyda rhieni, gofawyr ac asiantaethau allanol yn cefnogi'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn llwyddiannus

## Argymhellion

- A1 Sicrhau bod y targedau yn y cynllun gwella yn deillio'n uniongyrchol o'r broses hunanarfarnu
- A2 Sicrhau bod yr arweinydd newydd yn defnyddio gweithdrefnau hunanarfarnu effeithiol i fonitro ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- A3 Sicrhau bod yr arweinydd newydd a'r pwyllgor rheoli yn manteisio'n fwriadus ar hyfforddiant perthnasol

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau o fannau cychwyn sy'n is neu'n debyg i'r cyfartaledd disgwylidig. Mae'r cynnydd hwn yn amlwg pan fyddant yn cwblhau tasgau trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft wrth rifo smotiau ar foncyffion coed a chanu hwiangerddi a chaneuon am ddyddiau'r wythnos.

Mae llawer o'r plant yn siarad yn glir ac yn gwneud yn siŵr bod oedolion a phlant eraill yn eu deall wrth ymateb i farnau ei gilydd yn ystod gweithgareddau. Maent yn cynnal sgysiau buddiol gydag oedolion a'i gilydd wrth greu draenogod allan o does a darnau pren. Maent yn gwrandao ar gyfarwyddiadau gan eraill ac yn gweithredu arnynt yn effeithiol. Mae hyn yn weladwy pan fyddant yn peintio blodau haul gyda phaent lliwgar a chwilio am ddeinosoriaid yn y gwellt a'r gwair yn yr ardal allanol. Mae llawer o'r plant yn mynegi eu teimladau a'u hemosiynau yn synhwyrol wrth iddynt gytuno ar ba rolau i chwarae yn y gegin.

Mae bron pob un plentyn yn dangos diddordeb mewn llyfrau wrth eistedd a thrafod y cynnwys gyda'i gilydd ac oedolion cyn byrbryd. Maent yn trafod cymeriadau a digwyddiadau yn hyderus gydag oedolion a chyfoedion ac yn trin y llyfrau fel darllenwyr naturiol. O ganlyniad, maent yn ymateb â diddordeb i gynnwys storïau amrywiol. Mae'r lleiafrif o blant yn mynegi eu barnau'n ystyrlon wrth chwarae'n ddigymell a dan arweiniad oedolyn. Mae hyn yn digwydd pan fyddant yn defnyddio glud, dail, brigau a silindrau i greu coeden ac wrth iddynt wneud marciau a llinellau igam-ogam yn y glŵp.

Mae llawer o'r plant yn gwneud marciau yn effeithiol. Maent yn mwynhau profiadau ysgrifennu cynnar ac yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel paent, sialc, creonau, pensiliau ac ysgrifbinâu lliwgar. Mae llawer o'r plant yn adnabod eu henwau eu hunain yn gywir ac mae ychydig ohonynt yn ceisio ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau yn annibynnol. Mae'r mwyafrif o'r plant yn esbonio'n glir ddiben ysgrifennu yn y cyd-destunau cywir, er enghraifft wrth iddynt wneud marciau â'u bysedd ar fwrdd electronig.

Mae llawer o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol ac mewn cyd-destunau perthnasol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyfrif, yn adnabod ac yn enwi rhifau hyd at ddeg yn hyderus. Maent yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau mathemategol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio tafol yn llwyddiannus i bwysu cerrig mân yn yr ardal allanol. Yn ogystal, maent yn trefnu ei gilydd yn gyntaf, ail, trydydd ac yn y blaen, wrth linellu i olchi dwylo ar wahanol siapiau lliw.

Mae llawer o'r plant yn deall sut i grwpio mathau gwahanol o wrthrychau yn ôl maint, siâp a lliw yn gywir. Mae llawer o'r plant yn cymharu siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn yn hyderus fel cylch fflat ar bapur a silindr yn yr ardal grefft. Maent, yn ogystal, yn creu colâj wrth ludo dail ac adeiladu blociau i greu tyrau yn yr ardal adeiladu.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau defnyddio technoleg yn effeithiol wrth ddefnyddio llechi electronig a thrwy dasgau sy'n cynnwys teganau electronig a chamerau. Maent hefyd yn defnyddio meddalwedd addysgol ac apiau ar y llechi a'r bwrdd rhyngweithiol i ddatblygu eu medrau TGCh a'u medrau echddygol manwl yn llwyddiannus.

Mae llawer o'r plant yn datblygu medrau meddwl craff trwy weithgareddau diddorol, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau y maent yn eu cyflawni. Maent yn gweithio'n ddeallus gydag eraill wrth iddynt archwilio cyfaint a chynhwysedd gwahanol gynhwysyddion, gan benderfynu a yw bwcedi a chwpanau yn 'llawn', yn 'wag' neu'n 'hanner llawn' wrth adeiladu cestyll tywod.

Mae bron pob un o'r plant yn hoffi gwrando ar gerddoriaeth ac maent yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'u medrau corfforol yn llwyddiannus wrth yrru o amgylch mannau agored yn llawn egni ar feiciau, golchi ceir yn egniol y tu allan a dawnsio yn frwdfrydig i gerddoriaeth gyffrous.

### **Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad a phan fyddant yn gadael. Maent yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch at oedolion a'i gilydd. Maent yn gwrando'n ofalus ar ymarferwyr, er enghraifft wrth iddynt drafod mës a ble maent yn tyfu ac edrych ar hadau allan o bwmpen.

O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio'n eiddgar yn ystod eu tasgau. Maent yn diddori mewn gweithgareddau grŵp ac yn mwynhau'r tasgau a ddarperir fel creu siapiau a phatrymau gydag olwynion ceir yn y glŵp.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhannu adnoddau ac yn gweithio'n synhwyrol gyda phlant eraill. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd, fel pan fyddant yn rhifo darnau pren i greu'r pigau ar gorff draenog.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau deall y gallant wneud dewisiadau synhwyrol yn ystod chwarae rhydd. Maent yn mynegi barn a gwneud dewisiadau personol yn effeithiol, fel pan fyddant yn penderfynu symud o un ardal chwarae i un arall yn annibynnol, tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ddysgwyr hyderus.

Ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae rhydd creadigol a gweithgareddau yn yr awyr agored, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr a heb lawer o anogaeth gan yr oedolion. Maent felly'n datblygu eu hymwybyddiaeth o hylendid a'i bwysigrwydd i gynnal bywydau iach yn llwyddiannus.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm cytbwys sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn effeithiol. Maent yn darparu profiadau dysgu sy'n targedu anghenion a

diddordebau'r plant yn bwrpasol. O ganlyniad, maent yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu fel dysgwyr annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n gydwybodol â'i gilydd i ddarparu gweithgareddau diddorol a difyr sy'n cymell y plant i ddysgu'n ymarferol. Maent yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol yn effeithlon trwy ganolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol, meddwl a chreadigol y plant yn synhwyrol. Er enghraifft, mae'r plant yn cael cyfleoedd cyson i yrru'n fywiog ar feiciau, chwarae rolau gwahanol yn y gegin a chamu o un boncyff i'r llall.

Er bod yr arweinydd yn newydd i'w rôl, mae hi wedi mabwysiadu gweithdrefnau cynllunio sefydlog y lleoliad yn synhwyrol. O ganlyniad, mae'r systemau ar gyfer cynllunio'n ddyddiol ac yn y tymor hir yn effeithio'n gadarn ar brofiadau'r plant ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at frwdfrydedd y plant wrth iddynt ddysgu drwy chwarae.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n drefnus ac yn ddeallus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant. Mae gweithgareddau'n cynnwys heriau i ddatrys problemau gyda chyfarpar mathemategol, sy'n cyfatebu â rhifau a defnyddio til ac arian yn y gegin. Mae tasgau ysgogol i'w gweld yn yr holl feysydd dysgu ac maent yn herio llawer o'r plant i berfformio ar eu gorau yn gyson. Mae'r gweithgareddau yn adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol y plant ac yn herio'r plant yn bwrpasol o'u manau cychwyn.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i blant ddefnyddio offer TGCh fel teganau a llechi electronig, chwaraewr cryno ddisg, bwrdd rhyngweithiol a chamerâu. O ganlyniad, cynigir cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu eu medrau TGCh yn llwyddiannus, drwy ddefnyddio meddalwedd addysgol ac apiau yn fwriadus.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod bod medrau Cymraeg y rhan fwyaf o'r plant ar lefel isel pan fyddant yn cychwyn yn y lleoliad. Maent yn mynd i'r afael â hyn yn syth drwy fodelu geiriau, rhifau, lliwiau ac ymadroddion syml yn rheolaidd. O ganlyniad, mae dealltwriaeth llawer o'r plant o'r iaith yn datblygu'n gyflym. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus. Ymhlith y gweithgareddau hyn mae dathliadau Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen a chyfleoedd i bobi cacennau traddodiadol a choginio cawl.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Mae hyn yn creu ymwybyddiaeth gadarn gan y plant o'u milltir sgwâr a rolau pobl yn eu cymuned fel yr heddlu, hylenyddion deintyddol a'r nyrs.

### **Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plant. Maent yn deall gofynion y cyfnod sylfaen ac yn cydweithredu'n effeithlon. Mae ymarferwyr yn cyfarch y plant yn gynnes wrth iddynt gyrraedd y lleoliad ac maent yn rheoli ymddygiad y plant yn effeithiol. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn y gweithgareddau o'r foment y maent yn croesi trothwy'r uned.



Mae'r ymarferwyr yn dangos cydbwysedd synhwyrol rhwng gweithgareddau sydd dan gyfarwyddyd y plant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion. Maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd i blant ddysgu trwy brofiadau ymarferol a thrwy chwarae. Mae'r cyflwyniadau torfol a'r esboniadau ar ddechrau tasgau ffocws yn eglur a threiddgar, sy'n cynnal diddordebau'r plant yn llwyddiannus.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn herio'r plant yn gyson mewn tasgau ffocws. Maent yn holi'r plant yn fedrus ac yn rheolaidd sy'n effeithio'n gadarn ar eu medrau meddwl, rhifedd a chyfathrebu. Mae hyn yn amlwg wrth drin a thrafod nodweddion yr hydref ac wrth i'r plant ddangos eu dealltwriaeth o'r tymor drwy eu lluniau a'u gwaith celf.

Mae'r ymarferwyr yn cwblhau asesiadau cyson yn effeithlon. Maent hefyd yn trafod yn bwrpasol gyda'r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith yn ystod tasgau ymarferol. Maent yn cofnodi arfarniadau a thrafodaethau ar daflenni cofnodi a llyfrynau personol y plant yn effeithiol ac yn defnyddio camau proffil y cyfnod sylfaen yn ystyrlon i gynllunio'r ffordd ymlaen i blant penodol. Mae hyn yn effeithio ar y cynllunio ar gyfer anghenion unigolion yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn briodol am gyflawniadau eu plant ac yn trosglwyddo'r wybodaeth ymlaen i'r ysgol yn rheolaidd.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithlon gan y lleoliad i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad ac yn cefnogi eu dysgu yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn hybu bwyta ac yfed yn iach ac, o ganlyniad, mae plant yn deall bod ffrwythau, llysiau a chadw'n heini yn rhan bwysig o ddietau synhwyrol a bywydau iachus.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio sesiynau grŵp yn synhwyrol i ganolbwyntio ar deimladau plant a'r modd y maent yn trin pobl eraill. Drwy wneud hynny, mae ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn effeithiol. Mae'r arferion dyddiol hyn yn fuddiol i ethos cyffredinol a gweithgareddau'r lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant fyfyrion, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo'n ddyddiol. Mae hyn yn creu llonyddwch wrth i'r plant eistedd i wrando ar oedolion yn y sesiynau torfol, edrych ar lyfrau cyn byrbryd a dweud diolch am eu bwyd a'u diod. Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd defnyddiol ac ymarferol iddynt weini a chynorthwyo ei gilydd er mwyn datblygu eu hannibyniaeth. O ganlyniad, mae plant yn cymryd eu tro'n gwrtais wrth fwyta byrbryd o amgylch y bwrdd bwyta ac ymhyfrydu yn eu rôl fel helpwr neu ffotograffydd y dydd.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, plastig a cherdyn yn y lleoliad, a bwyd trwy systemau'r ysgol. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw fath o aflonyddwch ac ymddygiad afresymol. O ganlyniad, mae'r plant yn hapus ac

yn ddiogel yng nghwmni'r oedolion. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal cydwybodol o'r plant pan fyddant yn cyrraedd a gadael. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn drylwyr pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd ac yn targedu plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol pan fydd angen, trwy ddefnyddio cymorth ac arweiniad yr awdurdod lleol a gwasanaethau arbenigol.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos gofalgarg. Mae'r agweddau sy'n cael eu mabwysiadu gan ymarferwyr a'r gweithgareddau dyddiol yn anelu'n gyson at greu amgylchedd cadarnhaol i'r plant. Mae cymuned gynhwysol yn bodoli yma, lle mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r meysydd dysgu a'r cyfarpar sydd ar gael. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn cydnabod unigolrwydd pob plentyn yn effeithiol.

Mae pwyslais clir gan bob ymarferydd ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus drwy ddathlu gwyliau gwahanol ledled y byd, fel y Flwyddyn Newydd Tsieiniaidd, trafod storïau moesol o wledydd eraill a darparu doliau o wahanol gefndiroedd ethnig yn yr ardaloedd dysgu.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n bwrpasol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o adnoddau ac maent ar gael i bob plentyn ddewis eu defnyddio a'u rhoi heibio. Mae hyn yn hyrwyddo'u hymdeimlad o gyfrifoldeb yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau parhaus, ffocws a thasgau i gyfoethogi yn gwneud defnydd o adnoddau dysgu yn effeithiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r plant, yn enwedig wrth iddynt wneud marciau a defnyddio'u medrau mathemategol yn ymarferol yng ngweithgareddau'r lleoliad fel y gegin fwyd a'r ardal adeiladu.

Mae'r adeilad yn rhan o ysgol newydd sbon ac felly o ansawdd safonol iawn, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'n ddiogel ac yn dilyn gweithdrefnau'r ysgol ynglŷn â diogelwch y safle. Mae'r ardal awyr agored yn cynnwys cyfleoedd buddiol i blant dyfu planhigion yn ogystal â chyfarpar chwarae rôl fel y gegin fwd. Mae ardaloedd eang yr ysgol ar gael iddynt, sy'n cynnwys caeau ac ardal goed, ar gyfer chwarae bywiog, ymholi ac ymchwilio.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Yn dilyn ei phenodiad ym mis Medi eleni, mae'r arweinydd wedi cymryd cyngor yr ymarferwyr profiadol iawn sy'n gweithredu yn y lleoliad. Mae hi wedi parhau â'r ddarpariaeth sefydlog a chadarn a oedd yn bodoli eisoes.. Mae hyn wedi sicrhau bod ei harferion arweinyddiaeth yn adeiladu'n briodol ar lwyddiant gweithdrefnau'r gorffennol, yn enwedig wrth gynllunio'r profiadau dysgu a chynnal safonau da'r plant. Mae'r arweinydd wedi dilyn canllawiau a chynghor yr awdurdod lleol ar sut i gynllunio cwricwlwm eang a chytbwys. O ganlyniad, mae cyfeiriad cadarnhaol i'r gweithgareddau dyddiol.

Mae'r arweinydd yn ystyried cyngor gan eraill yn ofalus ac yn cymell ymarferwyr i greu newidiadau mewn ffyrdd cadarnhaol. Gwneir hyn trwy ddefnyddio gwybodaeth berthnasol a rheolaidd ynglŷn â'r lleoliad i sicrhau gwelliannau i'r ddarpariaeth a deilliannau plant. Ar y cyfan, mae'r arweinydd wedi defnyddio systemau arweinyddiaeth sefydlog y lleoliad yn synhwyrol. Fodd bynnag, nid yw ei dealltwriaeth o ddefnyddio'r brosesau hunanarfarnu fel teclyn strategol wedi'i wreiddio'n gadarn hyd yn hyn.

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol ac yn bwrpasol. Mae hi'n diffinio rolau cyfrifoldeb yr ymarferwyr yn glir er mwyn hyrwyddo llwyddiannau yn y lleoliad. Caiff ymarferwyr hyfforddiant perthnasol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae goruchwyliaeth ac arfarniadau effeithiol o'r ymarferwyr yn fanwl a chywir. Mae'r pwyllgor rheoli sefydlog a chefnogol yn arfarnu gwaith yr arweinydd, ymarferwyr a'r lleoliad yn gyffredinol yn bwrpasol iawn.

Mae'r pwyllgor rheoli yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am arferion y lleoliad o ddydd i ddydd gan yr arweinydd ac mewn cyfarfodydd rheolaidd. Maent yn wybodus a threfnus iawn ac yn elfen gadarn ym mywyd a llwyddiannau'r lleoliad. Mae'r pwyllgor wedi creu arferion trwyadl i sicrhau ansawdd ac maent yn canolbwyntio'u gwaith gwirfoddol yn llwyddiannus ar effeithio ar y ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Mae'r pwyllgor yn sicrhau rheolaeth ariannol gadarn drwy archwiliadau annibynnol yn flynyddol. Yn ogystal, mae trylwyrdd y pwyllgor o ran rheoli derbyniadau ariannol a gwariant dyddiol y lleoliad yn effeithlon.

### **Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn ystyried barnau ei gilydd, rhieni a gofawyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae gwelliannau amlwg wedi deillio o'r ystyriaethau hyn, sydd wedi gwella'r asesu dyddiol, y defnydd o broffil y cyfnod sylfaen a thargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol. Fodd bynnag, priodol yw'r gweithdrefnau cyfredol ar hyn o bryd. Nid yw'r arweinydd wedi cael digon o amser eto i wreiddio'r gweithdrefnau ym mywyd y lleoliad, nac elwa o hyfforddiant perthnasol ar sut i fonitro ansawdd y lleoliad.

Er bod trefniadau hunanarfarnu effeithiol wedi bodoli yn y gorffennol, nid yw'r prosesau'n targedu anghenion y lleoliad yn gwbl briodol. Mae systemau meintiol yr awdurdod lleol wedi dechrau effeithio ar y gweithdrefnau yn gadarnhaol yn y misoedd diwethaf. Er enghraifft, maent wedi datblygu'r broses o gynllunio tasgau ffocws a gweithgareddau sy'n cyfoethogi dysgu'r plant yn effeithiol.

Mae'r holl ymarferwyr yn awyddus i dderbyn syniadau newydd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog Mudiad Meithrin. Maent yn gweithredu'n rheolaidd ar eu cyngor. Mae hyn yn cychwyn arwain at welliannau buddiol. Er enghraifft, defnyddio proffil y cyfnod sylfaen i nodi gwaelodlin ar gyfer y plant a threfnu'r ardaloedd dysgu tu fewn a thu allan y lleoliad.

Mae cynllun gwella'r lleoliad yn nodi meysydd addas ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw'r targedau yn y cynllun gwella bob amser yn deillio'n uniongyrchol o broses hunanarfarnu'r lleoliad. Er bod prosesau yn eu lle, nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnwys digon o fanylder ynglŷn â pham mae angen gwella rhai meysydd ymhellach a sut maent wedi llunio ambell darged penodol.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n dda gyda phartneriaid i wella safonau a lles plant, ynghyd â'r ddarpariaeth. Mae'r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar arferion dyddiol y lleoliad, fel defnyddio tir yr ysgol a'r offer awyr agored. Mae gan y lleoliad gysylltiadau priodol â staff yn yr ysgol, ac mae hyn yn hwyluso'r trefniadau pontio yn effeithlon. Mae trefniadau i drosglwyddo asesiadau a gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac yn fuddiol i'r plant wrth iddynt ymgartrefu yn yr ysgol.

Mae ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Maent yn hysbysu rhieni a gofalwyr am waith y lleoliad drwy hysbysfwrdd defnyddiol, cylchlythyron a chyfryngau cymdeithasol. Maent hefyd yn eu hannog i fynegi'u barnau ar faterion i wella'r lleoliad drwy holiaduron a thrafodaethau rheolaidd. Mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn helpu meithrin tynerwch a gofal ymhlith y plant.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n synhwyrol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r perthnasoedd cadarnhaol hyn yn atgyfnerthu gwaith y lleoliad ac yn ei gefnogi'n weithredol gyda dogfennaeth i wella'r systemau rheolaethol newydd.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio ac yn cysylltu gydag ystod eang o bartneriaid eraill, sy'n gwneud cyfraniad pwysig at wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg, hyfforddiant y cyfnod sylfaen a hyfforddiant amddiffyn plant.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd yn dechrau gwella agweddau ar waith y lleoliad drwy reoli staff ac adnoddau'n bwrpasol. Gyda hyfforddiant ac arweiniad cadarn, ac wrth wrando ar eraill yn synhwyrol, mae'n llwyddo i sicrhau bod y gwaith dyddiol o fodloni anghenion y plant yn effeithiol. Mae'r systemau rheoli perfformiad yn eu lle ar gyfer ymarferwyr. Maent yn eu galluogi i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn effeithlon. O ganlyniad, mae diwylliant o gydweithio effeithiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill.

Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau yn llwyddiannus i gefnogi'r dysgu. Mae arferion a threfniadau dyddiol y lleoliad yn gyson ac yn sicrhau bod plant yn elwa o brofiadau dysgu diddorol a chadarnhaol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael mynediad parod i ddigon o adnoddau diddorol i gefnogi eu dysgu'n effeithiol.

Mae gan y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb, ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn synhwyrol. Maent yn creu gwelliannau rheolaidd trwy drafod ac ariannu cynlluniau ar gyfer gwella yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn sicrhau bod defnydd o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar safonau a lles plant, ynghyd â'r ddarpariaeth o brofiadau dysgu.

Yn gyffredinol, er bod angen gwella'r gweithdrefnau hunanarfarnu, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian oherwydd yr effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a deilliannau'r plant.

## Atodiad 1

### Arolygydd cofnodol

Mr Nicholas Jones	Arolygydd Cofnodol
-------------------	--------------------

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

## Rhestr termau

<b>AGGCC</b>	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
<b>Athro ymgynghorol awdurdod lleol</b>	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
<b>Y Cyfnod Sylfaen</b>	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
<b>Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)</b>	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
<b>Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)</b>	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
<b>Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)</b>	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
<b>Meysydd Dysgu</b>	<p>Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</li><li>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu</li><li>• datblygiad mathemategol</li><li>• datblygu'r Gymraeg</li><li>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd</li><li>• datblygiad corfforol</li><li>• datblygiad creadigol</li></ul>
<b>Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBC GP)</b>	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

<b>Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)</b>	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012
<b>Mudiad Meithrin</b>	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg